# Cylch Gwaith

Partneriaeth Natur Ceredigion
Ceredigion Nature Partnership

## Partneriaeth Natur Ceredigion

*Mynegai*


1. Diben
2. Diffiniadau
3. Amcanion
4. Dull
5. Statws
6. Aelodaeth
7. Partneriaeth
8. Strwythur a Chyfrifoldebau
9. Cyfarfodydd
10. Gweinyddu


## 1. Diben

Diben y ddogfen hon yw gosod allan ddiffiniad o Bartneriaeth Natur Leol Ceredigion / Ceredigion Local Nature Partnership a disgrifio pwy ydyn ni, beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud.

Dylid darllen hwn ar y cyd â'r Cylch Gwaith ar gyfer y Panel Grantiau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, fel y cafodd ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion ar (dyddiad).

## 2. Diffiniadau

1. **Natur** – Pob organeb fyw a chymhlethdod ecolegol, gan gynnwys elfennau a phrosesau nad ydynt yn fyw. Mae'n cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaeth, rhwng rhywogaethau ac amrywiaeth ecosystemau; gwytnwch ecosystemau; y gwasanaethau maent yn eu darparu i gymdeithas a'r ffyrdd mae pobl yn rhyngweithio â natur.
2. **Partneriaeth Natur Leol** – Term Llywodraeth Cymru am Bartneriaeth Natur, yn cael ei thalfyrru fel rheol fel PNL. Mae gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol (Cyngor Sir a Pharc Cenedlaethol) un o'r rhain.
3. **Partneriaeth Natur Ceredigion** – Ein henw llawn. Fersiwn ddwyieithog ddefnyddiol (a hashtag naturiol) yw **Natur Ceredigion** #NaturCeredigion
4. Rhwydwaith yw **Partneriaethau Natur Lleol Cymru** sydd ar hyn o bryd yn cael ei gefnogi gan arian gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, sy'n cael ei gweinyddu gan CGGC. Dan y trefniant hwn caiff Natur Ceredigion ei redeg gan Gyngor Sir Ceredigion, sy'n enwebu Cadeirydd,

yn cyflogi Cydlynydd y bartneriaeth a staff eraill, ac yn darparu sianel ar gyfer ariannu gweithgarwch i adfer natur, o fewn a'r tu hwnt i'r Awdurdod Lleol. Os bydd y trefniant hwn yn amrywio yn y dyfodol, bydd y Cylch Gwaith hwn yn cael ei adolygu'n unol â hynny.

## 3. Amcanion

Bydd Partneriaeth Natur Ceredigion:

1. Yn dwyn ynghyd bartïon sydd â diddordeb i ddatblygu rhwydwaith adfer natur a Chynllun Gweithredu ar Adfer Natur (NRAP).
2. Yn gweithio mewn partneriaeth i ailgysylltu pobl o bob rhan o Geredigion â natur, gwella dealltwriaeth o fioamrywiaeth ymhlith y cyhoedd yn ehangach ac annog cymryd rhan mewn gweithredu ymarferol, pwrpasol ar gyfer natur mewn cymunedau.
3. Yn nodi, hyrwyddo, cydlynu a chofnodi gweithredu presennol a gweithredu newydd i adfer, gwarchod, hyrwyddo a gwella natur yng Ngheredigion, gan gymryd i ystyriaeth flaenoriaethau lleol a chenedlaethol a chadw at y cylch gwaith isod.

## 4. Dull

Bydd Natur Ceredigion yn ceisio cyrraedd ei amcanion drwy:

1. Gydlynu gweithgarwch adfer natur ar draws y Sir a darparu arweiniad strategol i unrhyw staff neu wirfoddolwyr a all gael eu penodi o bryd i'w gilydd neu eu trefnu gan bartneriaeth Natur Ceredigion i alluogi a hwyluso cyflawni'r amcanion hyn.
2. Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ac unigolion allweddol mewn gweithgarwch i ddiogelu, gwella, ac adfer natur yng Ngheredigion. Bydd hyn yn cynnwys rhwydweithio a rhannu arfer da i er mwyn darparu gweithgarwch yn effeithlon ac effeithiol ar draws sefydliadau sy'n bartneriaid
3. Crynhoi, rhannu a dosbarthu gwybodaeth sy'n berthnasol i gadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd yng Ngheredigion.
4. Datblygu cynlluniau lleol ar gyfer adfer a gwarchod natur, yn bennaf y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yng Ngheredigion (NRAP), yn seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol sydd eu nodi mewn polisiau megis:
   a. Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur (NRAP) i Gymru
   b. Sefyllfa Natur Cymru
   c. Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol
   d. Datganiad Ardal Canolbarth Cymru
5. Cynnwys aelodau, partneriaid, rhan-ddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach wrth ddatblygu a gweithredu'r NRAP, er enghraifft, drwy sefydlu grwpiau gwaith.
6. Nodi dulliau ar gyfer monitro gweithgareddau adfer natur, gan werthuso cynnydd tuag at weithredu cynlluniau lleol a'u diwygio yn ôl yr angen.

7. Ymgorffori cadwraeth ac adfer natur ym mhob maes polisi perthnasol, cynlluniau a phrosiectau ledled y sir, er enghraifft, drwy gymryd rhan gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, ac yn y blaen.
8. Chwilio am gyfleoedd i leihau perygl niwed i fioamrywiaeth, a gwella'r potensial i fioamrywiaeth, drwy ddefnyddio tir neu fôr sy'n eiddo i aelodau, partneriaid neu drydydd partïon neu'n cael ei reoli ganddynt, ac arferion diwylliannol megis coedwigoedd, amaethyddiaeth, cloddio am fwynau, diwydiant, pysgota, twristiaeth, hamdden ac ati.
9. Cefnogi dyfodiad, datblygiad a darpariaeth prosiectau newydd a rhai presennol, gan sefydliadau ac unigolion, sy'n cyfrannu at amcanion Natur Ceredigion a mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol
10. Annog a chefnogi aelodau, partneriaid, rhan-ddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach i sicrhau camau sydd wedi eu nodi yn NRAP Ceredigion, er enghraifft, drwy redeg cynllun grantiau.
11. Sicrhau cymryd rhan yn eang gan y cyhoedd, gan gynnwys busnesau, ysgolion, perchnogion tir, ffermwyr, sefydliadau a grwpiau cymunedol wrth ddatblygu a darparu gwaith Natur Ceredigion.
    a. Adolygu a datblygu cynlluniau lleol, gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau perthnasol o fewn y bartneriaeth a sicrhau ymgynghori â'r bartneriaeth I gyfan cyn cyhoeddi cynlluniau newydd neu rai wedi eu diwygio.
    b. Cefnogi ac annog grwpiau gweithredu newydd a rhai presennol i symud ymlaen i weithredu camau sydd wedi eu nodi yn y cynlluniau.
    c. Dosbarthu gwybodaeth berthnasol ymhlith partneriaid a'r cyhoedd fel sy'n briodol.
    d. Codi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â chadwraeth natur drwy raglen o ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth.

## 5. Statws

1. Fforwm cydweithredol yw Natur Ceredigion, ac nid oes iddo statws fel endid cyfreithiol.
2. Mae gan bob aelod neu bartner yr un grym i sefydlu a gweithredu camau er mwyn cyflawni amcanion Natur Ceredigion yn unigol neu ar y cyd ag eraill.
3. Ni fydd gan Natur Ceredigion ddim awdurdod dros unrhyw rai o'r camau gan aelodau na swyddogaethau, dyletswyddau neu gyfrifoldebau sefydliadau sy'n bartneriaid.
4. Ar wahân i unrhyw rai o'r pwyntiau dan eitem 3 uchod, rhaid i aelodau a staff Natur Ceredigion neu wirfoddolwyr gydymffurfio â pholisïau perthnasol y sefydliad sy'n gwahodd.
5. Bydd yr Aelodau i gyd yn gweithredu'n unol â gofynion yr holl ddeddfwriaeth a'r polisi perthnasol, a bydd yr holl Bartneriaid yn ymarfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r gofynion hynny, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i: Gytundeb y CU ar Amrywiaeth Fiolegol (1992), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru (1981), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), Deddf Amgylchedd Cymru (2016), Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur (Cymru) a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr (Cymru).

## 6. Aelodaeth

1. Mae aelodaeth o Natur Ceredigion yn agored i unigolion a sefydliadau sy'n ymroi i'n hamcanion, a byddant yn cael eu sicrhau drwy lofnodi'r Cylch Gwaith hwn a darparu manylion cyswllt.
2. Caiff y cylch gwaith hwn ei ddarparu'n gyhoeddus drwy wefan Natur Ceredigion, ac anfonir copi neu ddolen at bawb sy'n gwneud cais am aelodaeth.
3. Caiff manylion aelodau eu dal yn ddiogel a'u cadw'n gyfrinachol, yn unol â GDPR.
4. Gall sefydliadau, asiantaethau a grwpiau, boed wedi eu cyfansoddi neu'n anffurfiol (cyrff), bob un enwebu un person wedi ei enwi fel yr aelod i'w cynrychioli ar Natur Ceredigion, i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd a gweithredu fel man cyswllt.
   a. Mae croeso i staff, gwirfoddolwyr neu aelodau eraill o gyrff felly fod yn bresennol mewn cyfarfodydd a chyfrannu at drafodaethau, ond ni ddylent ddylanwadu'n amhriodol ar wneud penderfyniadau.
   b. Bydd gan bob aelod un bleidlais yn unig p'un a yw'n unigolyn neu'n cynrychioli corff mwy o faint.
5. Gellir dod ag Aelodaeth neu Bartneriaeth yn Natur Ceredigion i ben drwy ysgrifennu at y Cadeirydd neu'r Cydlynydd.

## 7. Partneriaeth

1. Bydd aelodau sy'n dymuno cymryd rhan fwy amlwg yn Natur Ceredigion yn cael eu galw'n Bartneriaid.
2. Mae partneriaeth, fel aelodaeth, yn agored i unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad o unrhyw sector, gan gynnwys busnesau, cyrff cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol a chymunedol.
3. Mae partneriaeth yn agored i'r holl aelodau, p'un a ydynt yn cael eu hariannu drwy Natur Ceredigion neu'n annibynnol. Bydd pawb sy'n cael eu hariannu gan Natur Ceredigion yn cael eu hannog i fod yn aelodau ac yn bartneriaid.
4. Disgwylir i bartneriaid rannu gwybodaeth yn gyhoeddus am eu cyfraniad i Natur Ceredigion, gan gynnwys eu manylion cyswllt, a gallant wneud hynny drwy ddarparu manylion i'r Cadeirydd neu'r Cydlynydd.
5. Gall logos partneriaid a manylion eraill gael eu harddangos ar wefan Natur Ceredigion, a disgwylir i bartneriaid ddarparu dolenni cyfatebol er mwyn i wybodaeth allu llifo'n rhwydd.
6. Mae i bartneriaid yr un hawliau a chyfrifoldebau ag aelodau cyffredin, a'r unig wahaniaeth yw pa mor dryloyw yw'r gweithgarwch adfer natur

## 8. Strwythur a Chyfrifoldebau

1. **Corff sy'n Noddi** – Fel y nodwyd dan 2.4 uchod, mae Natur Ceredigion ar hyd o bryd yn cael ei noddi gan Gyngor Sir Ceredigion. Os bydd y trefniant hwn yn newid yn y dyfodol, caiff y Cylch Gwaith hwn ei adolygu. Cyfrifoldeb y corff sy'n noddi yw enwebu Cadeirydd, a lle mae'n briodol i gyflogi staff a gweinyddu cyllid.

2. **Y Pencampwr Bioamrywiaeth**, wedi ei enwebu gan Gyngor Sir Ceredigion o blith eu haelodau etholedig, sy'n gweithredu fel Cadeirydd at bob diben, neu sy'n enwebu dirprwy i gymryd y cyfrifoldeb hwnnw – fel rheol y Cydlynydd.
3. **Cyfrifoldebau'r Cadeirydd a'r Dirprwy –** Bydd y Cadeirydd:
   a. Yn gweithredu fel dolen strategol rhwng Natur Ceredigion a'r Corff sy'n Noddi i sicrhau bod y Bartneriaeth yn ddilys.
   b. Yn bod yn bresennol ac yn arwain pob un o gyfarfodydd Natur Ceredigion, yn meithrin cydweithrediad rhwng aelodau ac yn sicrhau llywodraethiant da a phrydlondeb, ymddygiad priodol a gwneud penderfyniadau effeithiol.
   c. Yn gweithio gydag aelodau Natur Ceredigion i osod y cyfeiriad strategol o fewn ein cylch gwaith daearyddol drwy flaenoriaethu effeithiol a monitro darpariaeth.
   d. Yn gweithredu fel llofnodwr dros Natur Ceredigion lle mae'n briodol.
   e. Yn gweithredu fel llysgennad dros Natur Ceredigion, gan godi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac eiriol dros adfer natur, a sicrhau datblygu a chynnal perthynas gadarnhaol gyda rhan-ddeiliaid allweddol.
   f. Yn adolygu'r Cylch Gwaith hwn bob nawr ac yn y man neu yn ôl yr angen.

4. **Cyfrifoldebau Aelodau**
   a. Cymryd rhan yn rheolaidd yng ngweithgareddau Natur Ceredigion, gan gynnwys bod yn bresennol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau a chyfathrebu drwy sianeli wedi eu cytuno.
   b. Gweithredu'n effeithiol, yn unol ag Amcanion a Dull Natur Ceredigion fel y maent wedi eu gosod allan uchod, i adfer, gwarchod, hyrwyddo a gwella natur yng Ngheredigion, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael drwy weithredu ar y cyd.
   c. Hyrwyddo, gweithredu a rhoi gwybod am weithgareddau sy'n cyfrannu at amcanion cynlluniau lleol.
   d. Hyrwyddo amcanion Natur Ceredigion yn ei chyfanrwydd, nid amcanion aelodau unigol neu bartneriaid yn unig.
   e. Nodi prosiectau posibl y gall aelodau ymgymryd â nhw neu gyfrannu atynt i hyrwyddo'r amcanion hyn, a dosbarthu'r wybodaeth hon drwy sianeli Natur Ceredigion.
   f. Nodi adnoddau (ariannol neu mewn da) y gall aelodau eu cyfrannu i helpu darparu gweinyddu craidd Natur Ceredigion neu fentrau penodol i adfer natur.
   g. Lle bydd yn bosibl, ymateb i ymgynghoriadau ar bolisiau, strategaethau a chynlluniau perthnasol, naill ai'n unigol neu ar y cyd.

h. Lle bydd digon o staff neu wirfoddolwyr, gall aelodau ddirprwyo rhai o'r cyfrifoldebau hyn i staff neu wirfoddolwyr, drwy drafod. O leiaf dylai aelodau sicrhau bod aelod staff neu wirfoddolwr bob amser yn safle'r Cydlynydd, i allu cyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r swydd honno y cyfeirir atynt mewn rhan arall o'r Cylch Gwaith hwn.

5. **Cyfrifoldebau'r Cydlynydd**

a. Cyflawni'r dyletswyddau canlynol neu recriwtio, rheoli a goruchwylio aelod neu dîm o staff neu wirfoddolwyr i wneud hynny.
b. Gwneud trefniadau ymarferol ar gyfer cyfarfodydd Natur Ceredigion, gan gynnwys trefnu lleoedd, drafftio agendâu a chofnodion a'u hanfon o gwmpas.
c. Darparu cyngor i aelodau ar faterion sy'n berthnasol i amcanion Natur Ceredigion, fel y mae eu harbenigedd yn caniatáu, neu lle bydd angen darparu llwybr iddynt i'r wybodaeth neu'r arbenigedd angenrheidiol.
d. Gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd i sicrhau bod Natur Ceredigion yn rhedeg yn llyfn yn ei holl swyddogaethau.
e. Ymgymryd â gweithgareddau, a chefnogi aelodau gyda chydlyniad i'w galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo gweithredu penderfyniadau a chynlluniau strategol Natur Ceredigion.
f. Cynrychioli Natur Ceredigion yng nghyfarfodydd LNP Cymru; nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd ag LNP cyfagos, a lle bydd yn briodol helpu datblygu, rheoli, darparu, monitro ac adrodd yn ôl am brosiectau felly.
g. Datblygu a defnyddio gweithdrefnau teg ac eglur ar gyfer dosbarthu'n gyfiawn unrhyw adnoddau a fwriedir i hyrwyddo amcanion Natur Ceredigion.
h. Adolygu'r cynnydd yn erbyn amcanion strategol, ac adrodd yn ôl yng nghyfarfodydd Natur Ceredigion.

## 9. Cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau

1. Bydd Natur Ceredigion yn cynnal o leiaf 4 cyfarfod bob blwyddyn mewn mannau a lleoliadau teg a chyfleus o gwmpas Ceredigion, gan gynnwys dewisiadau ar-lein / hybrid lle bydd yn bosibl.
2. Bydd cworwm pan fydd o leiaf bedwar aelod yn bresennol, boed yn bersonol yn y lleolida neu ar-lein.
3. Rhaid i unrhyw wrthdaro posibl mewn buddiant sydd gan aelod mewn eitem ar yr agenda gael ei gyhoeddi ar ddechrau'r cyfarfod. Gellir gofyn iddo adael y cyfarfod tra bydd y mater hwn yn cael ei drafod.
4. Gwneir penderfyniadau drwy gonsesiwn cyn belled â phosibl. Lle bydd angen, bydd pleidlais ar y sail bod gan bob aelod un bleidlais (gweler 6.4 uchod) a gwneir penderfyniadau drwy fwyafrif syml o'r rhai sy'n bresennol. Os bydd penderfyniad cyfartal, gall y Cadeirydd ddefnyddio pleidlais fwrw.

5. Bydd agenda ar gyfer pob cyfarfod yn cael ei drafftio gan y Cydlynydd a'i hanfon o gwmpas drwy e-bost o leiaf dair wythnos cyn pob cyfarfod, drwy gyfrwng y cylchlythyr.
6. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gytuno ar agendâu a chofnodion cyfarfodydd cyn eu hanfon o gwmpas.
7. Bydd y Cydlynydd yn drafftio, a phan fydd angen yn diwygio, cofnodion pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bartneriaeth ac yn eu hanfon o gwmpas cyn pen pythefnos ar ôl dyddiad y cyfarfod.
8. Cynhelir cyfarfodydd Natur Ceredigion yn gyhoeddus a byddant yn agored i unrhyw unigolyn neu gynrychiolydd o unrhyw sefydliad fod yn bresennol, p'un a ydynt yn aelodau neu beidio. Dim ond y rheiny sydd wedi dod yn aelodau cyn y cyfarfod a gaiff hawliau pleidleisio.
9. Os caiff gwybodaeth sensitif ei thrafod mewn cyfarfodydd (er enghraifft, ynglŷn â rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod), caiff ei chyfleu i aelodau dim ond ar y sail bod angen iddynt gael gwybod, a chaiff ei hystyried yn hollol gyfrinachol. Bydd unrhyw wybodaeth sensitif felly yn cael ei datgelu'n breifat i'r partïon perthnasol.
10. Diddymu – caiff Natur Ceredigion ei diddymu os bydd mwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau yn cytuno mewn cyfarfod arbennig wedi ei alw i'r diben hwnnw, gydag o leiaf dair wythnos o rybudd i'r holl aelodau. Gall Natur Ceredigion hefyd gytuno i ohirio ei gweithrediadau am gyfnod yn ôl yr angen, gan ddefnyddio'r un mecanwaith.

## 10. Gweinyddu

1. Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu fel y corff derbyn ac yn bod yn gyfrifol am gyflogi unrhyw staff a gweinyddu unrhyw asedau neu gronfeydd craidd ar ran Natur Ceredigion.
2. Os na fydd Ceredigion mwyach yn abl neu'n barod am ba reswm bynnag i weithredu fel y Corff Derbyn, bydd aelodau'n gyfrifol am adolygu'r Cylch Gwaith hwn ac yn ddelfrydol am enwebu Corff Derbyn arall yn ei le.
3. Os bydd Natur Ceredigion yn dod i ben ac os oes cronfeydd neu asedau yn ein henw, caiff y rhain eu trosglwyddo i aelod er mwyn parhau'r prosiect neu eu dychwelyd i'r arianwyr gwreiddiol.

## 11. Polisïau

1. Cyfle Cyfartal
    a. Nid yw ac ni fydd Natur Ceredigion yn goddef unrhyw fwlio, poenydio na gwahaniaethu. Bydd pob Partner ac aelod yn cael ei drin yn gyfartal, heb ystyried oed, rhyw, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, beichiogrwydd, anabledd, ethnigrwydd, crefydd, dewis iaith neu nodweddion personol eraill.
    b. Bydd unrhyw gynlluniau neu weithgareddau a gynigir gan aelodau o Natur Ceredigion i gyfrannu at ein hamcanion yn cael eu hasesu'n unig yn ôl eu haeddiant mewn perthynas ag adfer natur, heb ystyried nodweddion

personol unrhyw aelodau, staff neu wirfoddolwyr sy'n ymwneud â'u datblygu neu eu darparu.
   c. Byddwn yn cydnabod ac yn ymateb i unrhyw ymddygiad anaddas, gan ddarparu cymwysiadau rhesymol i alluogi cymryd rhan yn deg yn holl weithgareddau Natur Ceredigion.
2. Polisi Cyfathrebu – Y prif sianeli ar gyfer cyfathrebu ymhlith aelodau o Natur Ceredigion a rhyngom ni a'n rhan-ddeiliaid a'r cyhoedd fydd drwy:
   a. Ein gwefan
   b. Cyfarfodydd (manylion uchod)
   c. Cylchlythyr, yn cael ei ddosbarthu drwy e-bost ar adegau i gael eu penderfynu yn ôl y galw a'r adnoddau sydd ar gael.
   d. Cedwir ein rhestr bostio yn unol â GDPR. Gall unrhyw un ymuno â'r rhestr bostio drwy anfon cais drwy e-bost at y tîm staff yn biodiversity@ceredigion.gov.uk
3. Polisi Iaith
   a. Mae Natur Ceredigion yn bartneriaeth ddwyieithog sy'n cydnabod y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd swyddogol Cymru, ac mae'n cynnal hawliau ei holl aelodau a'i bartneriaid i gyfathrebu yn eu dewis iaith, heb ofni gwahaniaethau na disgwyl ffafriaeth.
   b. Bydd ein holl gyfathrebu, boed ar lafar, yn ysgrifenedig neu'n electronig, yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd unrhyw ohebiaeth yn newis iaith y cwsmer.
4. Diogelu Data
   d. Bydd Natur Ceredigion yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth yn ymwneud â diogelu data, preifatrwydd a GDPR.

- *Awduron:* Jake Rayson, Gillian Clark, Rachel Auckland
- *Dyddiad:* Dydd Mercher 30 Hydref 2024
- *Diwygiwyd:* Dydd Iau 23 Ebrill 2025